LLYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU
THE NATIONAL LIBRARY OF WALES

Adolygiad Blynyddol Gwarchod Data 2017

1. Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn adolygiad blynyddol o gydymffurfiad Llyfrgell Genedlaethol Cymru â Deddf Gwarchod Data 1998. Gan edrych ar y cyfnod rhwng 1 Ionawr a 31 Rhagfyr 2017 , mae'n rhoi trosolwg o ddatblygiadau yn y rheoliadau a'r canllawiau sy'n ymwneud â'r Ddeddf Gwarchod Data, diwygiadau i bolisïau a gweithdrefnau'r Llyfrgell, cofnod o gyswllt y Llyfrgell â'r Comisiynydd Gwybodaeth, Ceisiadau Mynediad Gwrthrych a dderbyniwyd, digwyddiadau a gweithgareddau diogelwch perthnasol i hyfforddi a chodi ymwybyddiaeth staff.

2. Rheoliadau a Chanllawiau

2.1 Yn ystod 2017 , mae Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth wedi cyhoeddi canllawiau ar y canlynol :

- Data mawr, deallusrwydd artiffisial a diogelu data (Medi 2017)
- Cod ymarfer CCTV (Mehefin 2017)
- Hysbysiad o dor diogelwch data i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) (Tachwedd 2017)
- Cod ymarfer mynediad gwrthrych (Mehefin 2017)

3. Diwygiadau i bolisïau a gweithdrefnau

3.1 Cymerodd Carol Edwards, Rheolwr Llywodraethiant a Chlerc Bwrdd yr Ymddiriedolwyr, gyfrifoldebau'r Dirprwy Swyddog Gwarchod Data.

3.2 Cyhoeddwyd y wybodaeth ganlynol ar wefan y Llyfrgell: Strategaeth Farchnata; Strategaeth Ymgynghori ac Ymgysylltu Cyhoeddus.

3.3 Diweddarwyd y polisïau canlynol yn 2017: Strategaeth Farchnata; Strategaeth Ymgynghori ac Ymgysylltu Cyhoeddus .

4. Cysylltu â'r Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth

4.1 Adnewyddwyd cofnod y Llyfrgell yng Nghofrestr Gwarchod Data'r Comisiynydd Gwybodaeth. Daw'r cofrestriad i ben ar 11 Chwefror 2018 . Gwneir adnewyddiadau trwy orchymyn banc. Mae'r cofrestriad yn dal i gael ei adolygu'n flynyddol ac anfonir unrhyw ddiwygiadau i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth .

4.2 Rhoddodd Helen Thomas gyflwyniad ar y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) i'r Pwyllgor Cydymffurfio Gwybodaeth ar 6 Mehefin 2017. Daw'r GDPR i rym ar 25 Mai 2018. Tynnwyd sylw'r aelodau at y tudalennau ar ddiwygio gwarchod data ar wefan y Swyddfa.

5. Ceisiadau Mynediad Gwrthrych

5.1 Ni dderbyniwyd Ceisiadau Mynediad Gwrthrych yn ystod 2017 .

6. Digwyddiadau diogeledd

6.1 Ni chafwyd unrhyw ddigwyddiadau diogeledd y bu'n rhaid hysbysu Swyddfa'r Comisiynydd yn eu cylch.

7 . Ymwybyddiaeth a hyfforddiant staff

7 .1 Fel rhan o'u hymsefydlu gorfodol i Lyfrgell Genedlaethol Cymru mae pob aelod newydd o staff yn gweld DVD a grëwyd gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Mae 'The Lights are On' yn gyflwyniad i'r Ddeddf Gwarchod Data ac mae 'Tick Tock' yn gyflwyniad i'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.

Mae eu pecynnau gwybodaeth hefyd yn cynnwys argraffiadau sleidiau o gyflwyniadau i Warchod Data a Rhyddid Gwybodaeth.

7 .2 Ni chynhaliwyd sesiynau ymwybyddiaeth Hawliau a Gwybodaeth na sesiynau Ymwybyddiaeth Diogelwch Gwybodaeth yn 2017. Mae adnoddau hyfforddi ar Ddiogelwch Gwybodaeth ar gael ar fewnrwyd y Llyfrgell.

Rhoddwyd cyflwyniad ar GDPR i aelodau'r Pwyllgor Cydymffurfio Gwybodaeth ar 6 Mehefin 2017 (gweler uchod).